

Enw	Y Podlediad Dysgu Cymraeg
Uwch gynhyrchydd	Gareth Iwan Jones
Slot	Dyddiau Mercher am 14:00
Nifer	Cyfresi byrion o 3-6 rhaglen
Hyd	27'30" lle'n bosib – hyn i'w drafod wrth gomisiynu
Pris	£400-£700 y bennod
Briff	Mae Y Podlediad Dysgu Cymraeg yn rhan bwysig o'n darpariaeth ni ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd. Ar ddyddiau Mercher cyntaf pob mis mae 'na bennod o Pigion yn cyhoeddi. Ynddi mae Aled Hughes yn cyflwyno clipiau o gynnwys Radio Cymru, ochr yn ochr â geirfa i gynorthwyo gyda'r gwrando. Yn ogystal â Pigion, ar ail ddydd Mercher y mis, rydyn ni'n cyhoeddi podlediad arall dan frand Y Podlediad Dysgu Cymraeg. Eleni, y ddarpariaeth yw: • Sgwrsio gyda Nick Yeo • Agor y Drws gyda Nia Parry (sy'n dechrau fis Hydref) • Pont (cyflwynydd Angharad Lewis) Rydyn ni'n chwilio am syniadau i'r slot <i>ail ddydd Mercher y mis</i> ar gyfer 2027-2028, i eistedd ochr yn ochr gyda Pigion. Rhaglenni syml fydd rhein o ran strwythur, yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg newydd glywed eu profiadau nhw'n cael eu hadlewyrchu tra'n rhoi cyfle i ymarfer sgiliau gwrando. <u>Nodyn cyfreithiol am Y Podlediad Dysgu Cymraeg a hawlfreintiau</u> Mae Lleisiau Cymru yn cael ei dosbarthu ar ffrwd RSS (h.y. mae'r podlediadau ar gael ar blatfformau masnachol, fel Spotify, Apple Podcast a BBC.com).

	Oherwydd hyn mae'r comisiynau yma yn amodol ar roi'r holl hawliau angenrheidiol i'r BBC o dan y Telerau Masnach Sain i alluogi'r BBC i ymarfer ac ymelwa ar y fath hawliau, gan gynnwys clirio'r hawliau sylfaenol. Mae hyn yn golygu nad oes modd cynnwys unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint (caneuon, llenyddiaeth, cerddoriaeth, geiriau caneuon yn cael eu darllen) yn y comisiynau; does dim eithriad yn bosib i'r drefn yma. Bydd y BBC yn berchen ar sail ecsoglwsif ac yn rheoli'r ffrwd RSS y mae'r teitl wedi ei chyhoeddi arni, a bydd gan y BBC yr hawl i gofrestru teitl y ffrwd fel nod masnach.
--	---